# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 8 Mawrth 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

# 126(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**

Peredur Owen Griffiths (Dwyrain De Cymru): A yw Llywodraeth Cymru wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Heddlu Gwent a Heddlu De Cymru yn dilyn y ddamwain angheuol yn Llaneirwg?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Data biometrig mewn ysgolion

(60 munud)

**NDM8131** Sarah Murphy (Pen-y-Bont ar Ogwr)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod yr arfer cyffredinol o gasglu a defnyddio data biometrig mewn ysgolion ledled Cymru yn peryglu data personol a phreifatrwydd plant.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n:

a) sicrhau bod Erthygl 16 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sef hawl plentyn i breifatrwydd, yn cael ei gadarnhau o fewn Cymru;

b) sicrhau bod ysgolion a lleoliadau gofal plant yn defnyddio technolegau nad ydynt yn fiometrig ar gyfer gwasanaethau, yn hytrach na defnyddio systemau biometrig a allai beryglu diogelwch data biometrig plant;

c) sicrhau bod asesiadau risg priodol a phrosesau caffael cwmnïau technoleg mewn lleoliadau addysgol yn cael eu rhoi ar waith;

d) cydnabod y niwed posibl o'r defnydd anrheoledig o ddata biometrig;

e) cydnabod diffyg caniatâd pobl ifanc a phlant o fewn y defnydd cyfredol o ddata biometrig o fewn ysgolion.

**Cyd-gyflwynwyr**

Jane Dodds (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

**Cefnogwyr**

Carolyn Thomas (Gogledd Cymru)

Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau - Y Troad Terfynol? P-06-1253 Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru

(60 munud)

**NDM8216** Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau, 'Y Troad Terfynol? P-06-1253 Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Rhagfyr 2022.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Chwefror 2023.

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Yr adolygiad ffyrdd

(60 munud)

**NDM8218** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi adroddiad panel adolygu ffyrdd Llywodraeth Cymru, Dyfodol Buddsoddiad Ffyrdd yng Nghymru.

2. Yn gresynu at y diffyg ymgysylltu gan y panel adolygu ffyrdd gyda'r cyhoedd, cynrychiolwyr etholedig, awdurdodau lleol, busnesau a'r trydydd sector ac eraill yn ystod yr adolygiad.

3. Yn credu bod argymhellion y panel adolygu ffyrdd i roi'r gorau i fuddsoddi mewn prosiectau ffyrdd hanfodol sydd wedi'u cynllunio i wella diogelwch ar y ffyrdd, mynd i'r afael â thagfeydd, lleihau llygredd aer a sicrhau buddion economaidd yn methu â chyflawni'r seilwaith trafnidiaeth y mae pobl Cymru yn eu haeddu.

Dyfodol buddsoddiad ffyrdd yng Nghymru

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Sian Gwenllian (Arfon)

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod yr angen am weithredu beiddgar a radical yn y sector trafnidiaeth i helpu i gyflawni allyriadau sero-net cyn 2050.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i fuddsoddi mwy brys mewn trafnidiaeth gyhoeddus ac isadeiledd cerbydau trydan fel bod gan gymunedau ledled Cymru fwy o fynediad at opsiynau trafnidiaeth carbon isel neu di-garbon.

## 8 Cyfnod Pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8217** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Cenedl sy'n cydsefyll: Cymru'n sefyll gyda phobl Armenia

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 14 Mawrth 2023